**CYNLLUN LLES CŴN HEDDLU GOGLEDD CYMRU A SWYDD GAER**

# CANLLAW AR DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU YMWELWYR LLES CŴN HEDDLU

## 1. Cefndir

1.1. Gwnaeth marwolaeth ci heddlu dan hyfforddiant yn Essex a digwyddiadau ar ôl hynny gan gynnwys erlyn swyddogion heddlu arwain at golled ddealladwy yn hyder y cyhoedd mewn dulliau hyfforddi cŵn heddlu. Creodd sylwadau anffafriol yn y cyfryngau. Arweiniodd hyn at sefydliadau lles anifeiliaid fel y RSPCA a’r Gynghrair Amddiffyn Cŵn Genedlaethol (a adwaenir yn awr fel yr Ymddiriedolaeth Cŵn) yn peidio rhoi cŵn i’r gwasanaeth heddlu.

1.2. Mewn ymateb, cychwynnodd Is-bwyllgor Cŵn Heddlu CPSH adolygiad trwyadl ynghylch hyfforddiant cŵn heddlu. Gwnaeth gyflwyno dau Gynllun Arolygu Lles Anifeiliaid arbrofol yn Essex a Swydd Gaerhirfryn. Gweithredwyd hwy’n llwyddiannus. O ganlyniad, cytunodd CPSH y dylai holl heddluoedd ystyried cyflwyno cynllun annibynnol, i’w gael ei reoli gan awdurdodau heddlu.

## 2. Amcanion y Cynllun

2.1. Cyflwynwyd yr hen Gynllun Arolygu Lles Cŵn Heddlu gan Awdurdod Heddlu Swydd Gaer yn 2002. Roedd hyn mewn ymgynghoriad â’r Prif Gwnstabl, y RSPCA a’r Milfeddygon a oedd yn cyfranogi i’r cynllun. Adwaenir y cynllun yn awr fel Cynllun Lles Cŵn Heddlu. Nod y cynllun yw gallu arsylwi ac adrodd am yr amodau mae cŵn heddlu yn cael eu cartrefu, hyfforddi, cludo a’u defnyddio. Nod strategol y cynllun yw cynnal hyder cyhoeddus a sicrhau lles cŵn heddlu drwy sicrhau fod dulliau hyfforddi cŵn heddlu a’r defnydd gweithredol o gŵn heddlu’n yn effeithiol, trugarog, moesegol a thryloyw.

2.2. Yn dilyn cyfuno unedau cŵn heddlu Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn 2016, mae Cynllun Swydd Gaer wedi’i ymestyn i gynnwys penodi Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu o Ogledd Cymru.

## 3. Gweithredu’r Cynllun

3.1. Mae’r cynllun yn cynnwys tri math o archwiliad a ymgymerir gan dri unigolyn gwahanol:-

(1) mae’r Milfeddyg yn archwilio holl gŵn heddlu wrth iddynt ymweld â’r filfeddygfa am eu brechiad blynyddol a chwblheir adroddiad ar gyfer bob ci.

(2) ymweliadau byrfyfyr a ymgymerir yn annibynnol gan Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu er mwyn arsylwi’r cŵn yn ystod y dyddiau hyfforddiant rhaglenedig. Archwilio’r cerbydau a ddefnyddir i gludo’r cŵn yn y meysydd hyfforddi amrywiol yn Swydd Gaer a Gogledd Cymru a’r cytiau cŵn sydd yn yr Uned Gŵn, Winsford, a chwblhau adroddiadau ar gyfer bob ci sy’n bresennol.

(3) mae rheolwr/goruchwyliwr yr Uned Cŵn Heddlu yn gyfrifol am ymweld â chartref bob Triniwr Ci yn flynyddol, er mwyn cynnal archwiliad o’r amodau y cedwir y cŵn.

3.2. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn gyfrifol am fonitro a derbyn adroddiadau am y Cynllun.

## 4. Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu

4.1. Mae Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd. Maent wedi penodi Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu annibynnol sydd â diddordeb mawr mewn cŵn a sicrhau y cynhelir safonau.

4.2. Mae'r cyfnod penodiad am dair blynedd ac adolygir yn flynyddol. Bydd penodiadau o ganlyniad yn adnewyddadwy wedi cyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, gallu a pharodrwydd parhaus yr Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu i gynnal y rôl yn effeithiol yw'r ffactorau allweddol wrth adnewyddu penodiadau ar gyfer cyfnodau pellach.

4.3. Efallai bydd Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu ond yn gwasanaethu 3 tymor o 3 blynedd, sef uchafswm o 9 mlynedd. Mae hyn er mwyn gwarchod annibyniaeth y cynllun.

## 5. Milfeddygon

5.1. Mae'r Milfeddygon a awdurdodwyd i gynnal y brechiadau, archwiliadau a gwiriadau iechyd blynyddol yn annibynnol o'r gwasanaeth Heddlu. Byddant yn cwblhau ffurflen adroddiad ar gyfer bob ci heddlu sy'n ymweld â'r filfeddygfa. Dychwelir hon at Weinyddwyr y Cynllun drwy'r Uned Gŵn.

## 6. Rhingylliaid Unedau Cŵn

6.1. Gwnaiff Rhingylliaid Unedau Cŵn ymgymryd ag ymweliadau i archwilio'r amodau y cedwir cŵn heddlu yng nghartrefi'r Triniwr yn flynyddol. Cwblheir y ffurflen adroddiad briodol a'i dychwelyd at Weinyddwyr y Cynllun.

## 7. Hyfforddiant

7.1. Bydd Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu yn derbyn hyfforddiant ar bynciau yn cynnwys: dulliau hyfforddi cŵn heddlu; lles, cludo ac iechyd a diogelwch anifeiliaid.

## 8. Amlder a threfniadau ar gyfer ymweliadau Archwilio

8.1. Ymgymerir dau ymweliad y mis. Gwnaiff Gweinyddwyr y Cynllun gydlynu'r ymweliad ar sail rota.

8.2. Dylid ymgymryd ag ymweliadau i'r cytiau cŵn, yn yr Uned Gŵn, Winsford a/neu'r mannau hyfforddi amrywiol yn Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn fisol. Mae hyn i gyd-fynd â'r dyddiau hyfforddiant rhaglenedig a gynhelir o Ddydd Llun i Ddydd Gwener bob wythnos. Mae bob ci heddlu yn derbyn o leiaf ddau ddiwrnod o hyfforddiant ym mhob cyfnod o chwe wythnos.

8.3. Cyn gadael cartref ar ddiwrnod yr ymweliad arfaethedig, dylai Ymwelwyr gysylltu â Rheolwr/Goruchwyliwr yr Uned Gŵn i ganfod lleoliad y maes hyfforddi a ddefnyddir ar y diwrnod penodol hwnnw. Dylent gysylltu hefyd os ydynt angen unrhyw gyfarwyddiadau. Efallai bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn adolygu amlder yr ymweliadau os bydd angen.

## 9. Craffu

9.1. Bydd Gweinyddwyr y Cynllun yn galw cyfarfod ~~ymgynnull~~ blynyddol rhwng yr Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu a Rhingylliaid yr Uned Gŵn i adolygu gweithrediad y cynllun a derbyn diweddariadau ar faterion perthnasol.

## 10. Cynnal Ymweliadau

10.1. Wrth ymgymryd ag ymweliad, bydd Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu bob amser yng nghwmni swyddog neu aelod staff ar y maes hyfforddi neu'r cytiau cŵn. Rhaid i Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu lynu at y cyngor a roddir gan y swyddog neu'r aelod staff o ran unrhyw faterion iechyd a diogelwch. Ni fydd gofyn fel arfer i Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu ymweld â phreswylfeydd preifat trinwyr cŵn er mwyn archwilio cyfleusterau cytiau cŵn. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai gofynnir iddynt fynd gyda swyddog heddlu i dŷ Triniwr Ci (*gweler paragraff 11*).

10.2. Bydd yr Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu yn pryderu'n bennaf am les y ci heddlu drwy ymgymryd archwiliadau o'r anifail, y cwt ci a'r cerbyd a ddefnyddir i gludo'r ci. Os oes gan Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu bryderon o ran adnabod y ci, gwnaiff Rhingyll yr Uned Gŵn adnabod y ci penodol ar gyfer yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu.

10.3. Os yw Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn derbyn gwybodaeth neu gŵyn gyfrinachol o ran lles ci penodol, dylai'r wybodaeth hon gael ei blaenyrru ar unwaith at Weinyddwr y Cynllun. Gwnaiff Gweinyddwr y Cynllun yna drefnu i'r mater gael ei ymchwilio.

10.4. Rhaid i unrhyw broblem o ran ymddygiad aelod o'r Uned Gŵn ddod i sylw'r Rhingyll Uned Gŵn priodol neu Weinyddwr y Cynllun ar e-bost neu dros y ffôn.

## 11. Ymweliadau ar Gais yr Heddlu

11.1. Mewn eithriadau, gall amgylchiadau godi lle bydd yr Heddlu yn dymuno cymell ymweliad gan Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu. Mae hyn yn benodol lle efallai bydd pryder lleol difrifol ynghylch triniaeth neu les ci heddlu a gall ymweliad arbennig fod o gymorth i liniaru ofnau'r cyhoedd. Bydd y Rhingyll Uned Cŵn yn gyfrifol ar yr achosion hyn am gysylltu â'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu i drefnu ymweliad.

## 12. Cwblhau Adroddiadau a Gweithredu Dilynol

12.1. Mae cofnodi ffeithiau ymweliad yn un o agweddau pwysicaf y cynllun. Efallai y dymuna Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu wneud nodiadau yn ystod yr ymweliad. Bydd Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu yn cwblhau adroddiad ar yr holl gŵn heddlu sy'n bresennol yn y maes hyfforddi neu'r cytiau cŵn ar ddiwedd yr ymweliad. Dylid ond cwblhau'r daflen 'Pum Rhyddid' os oes problem yn berthnasol i les ci penodol. Dylid cwblhau'r ffurflen adroddiad yn breifat, nid ym mhresenoldeb staff yr heddlu. Rhoddir y copi gwyn i'r Hyfforddwr, y copi gwyrdd i Weinyddwr y Cynllun a chedwir y copi pinc gan yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu. Gwnaiff Gweinyddwr y Cynllun hefyd flaenyrru copi at Ringyll yr Uned Gŵn.

12.2. Os yw ymweliad yn datgelu unrhyw agweddau o gamdriniaeth o unrhyw gŵn heddlu yn y cytiau cŵn neu'r meysydd hyfforddi neu amodau anfoddhaol, **rhaid ei gofnodi ar y Ffurflen Adroddiad ar adeg yr ymweliad**. Os ymddengys fod problem angen sylw brys, dylid hysbysu'r swyddog â gofal ar unwaith. Os yw'r Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu yn anfodlon ag ymateb neu weithrediadau'r

swyddog â gofal o ran lles ci heddlu, dylent fynegi eu pryderon â Rhingyll yr Uned Gŵn adeg yr ymweliad neu'n fuan wedi hynny.

12.3. Os oes gan Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu unrhyw bryderon pellach ynghylch ymweliad, dylent gysylltu â Gweinyddwyr y Cynllun cyn gynted â phosibl wedi'r ymweliad. Gwnânt hwythau wedyn ddilyn y mater gyda'r Prif Swyddog cyfrifol am yr Unedau Cŵn yn Swydd Gaer neu Ogledd Cymru.

**13. Canllaw**

13.1. Mae copi o'r Canllaw hwn ar gael hefyd yn y cytiau cŵn, Uned Gŵn, Winsford.

**14. Costau**

14.1. Mae costau teithio'n daladwy i holl Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu ar y gyfradd a osodwyd gan bob Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

14.2. Bydd costau teithio'n daladwy hefyd i'r Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu hynny a benodir yn ffurfiol i fynychu unrhyw gyfarfodydd perthnasol, hyfforddiant a chynadleddau sy'n destun caniatâd blaenorol yn cael ei roi gan Weinyddwr y Cynllun.

**15. Yswiriant**

15.1. Gofelir am holl Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu gan yswiriant y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd/Heddlu, yn erbyn anaf personol wrth ymgymryd ag ymweliadau. Mae Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu yn gyfrifol am hysbysu eu hyswirwyr cerbydau modur eu bod yn ymgymryd rôl wirfoddol a sicrhau bod gan eu cerbyd ofal 'defnydd busnes'.

**16. Penodi / ailbenodi / terfynu Ymwelwyr**

16.1. Manylir y broses yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Atodiad 1.

**17. Ymddygiad a Phroses Cwynion ac Apeliadau**

17.1. Manylir y broses yn Atodiad 2.

**18. Manylion Cyswllt**

18.1. Cysylltwch â Gweinyddwyr y Cynllun am wybodaeth bellach:-

| | |
|---|---|
| Matthew Walton<br>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>Clemonds Hey<br>Oakmere Road<br>Winsford, CW7 2UA<br>Ffôn: (01606) 364005<br>E-bost: matthew.walton@cheshire.pnn.police.uk | Meinir Mai Jones<br>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>Pencadlys<br>Glan y Don<br>Bae Colwyn, LL29 8AW<br>Ffôn: (01492) 804903<br>E-bost: Meinir.Jones1@nthwales.pnn.police.uk |

**ATODIAD 1**

# CYNLLUN LLES CŴN HEDDLU

## MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

Cewch gopi o'r canllaw llawn ar gyfer y Cynllun. Ond dylech nodi'r pwyntiau canlynol yn benodol. Mae'r rhain yn tynnu sylw at ddisgwyliadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd o ran Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu.

### 1. Rôl a chyfrifoldebau

Diben eich rôl yw arsylwi ac adrodd ar amodau y cartrefir, hyfforddir, cludir a defnyddir cŵn heddlu. Nod strategol y cynllun yw cynnal hyder cyhoeddus a sicrhau lles cŵn heddlu drwy sicrhau fod dulliau hyfforddi a defnyddio cŵn heddlu yn weithredol yn effeithiol, trugarog, moesegol a thryloyw.

### 2. Penodiad

Mae eich penodiad am gyfnod prawf o chwe mis i ddechrau. Byddwch yn gymwys am ailbenodiad bob tair blynedd. Mae hyn yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac i'r statws fetio angenrheidiol. Y cyfnod penodiad hiraf yw naw mlynedd.

### 3. Ymddygiad

Dylech weithredu'n broffesiynol a chyfrifol gyda gonestrwydd ac uniondeb wrth ymgymryd â'ch rôl ac i'r safonau proffesiynol uchaf. Ni ddylai bod sail amau y dylanwadir Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu mewn unrhyw ffordd gan gymhellion amhriodol. Mae disgwyl i chi gyflawni dyletswyddau yn y fath ffordd i beidio byth â gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu, ymddwyn yn sarhaus neu fwlio unigolyn. Ni ddylech fod o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau a sicrhau y gwisgir dillad priodol.

### 4. Cerdyn adnabod

Bydd eich cerdyn adnabod yn ddilys am y cyfnod y penodir chi fel Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu. Mae'r cerdyn adnabod yn eich awdurdodi i ymweld â'r meysydd hyfforddi amrywiol a'r cytiau cŵn. Dylid ond defnyddio'r cerdyn adnabod at ddiben ymweld. Os defnyddir ar gyfer unrhyw ddibenion eraill, bydd yn cael ei dynnu oddi arnoch a gall eich penodiad fel Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu gael ei ddiddymu.

Rhaid i Weinyddwyr y Cynllun gael eu hysbysu ar unwaith os aiff eich cerdyn adnabod ar goll neu os caiff ei ddwyn. Rhaid dychwelyd cardiau adnabod pan derfynir penodiad fel Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu.

**5. Ymgymryd ymweliadau**

Mae gofyn i chi wneud ymweliadau dim ond pan yr ydych wedi'ch pennu i wneud.

**6. Gofynion sylfaenol**

Mae disgwyl i chi wneud o leiaf 6 ymweliad y flwyddyn. Os oes amgylchiadau eithriadol, sy'n eich atal rhan gwireddu'r gofyniad hwn, dylech sicrhau fod Gweinyddwyr y Cynllun yn ymwybodol o'r rhain. Os nad ydych wedi gwneud ymweliad o fewn cyfnod o chwe mis, bydd Gweinyddwyr y Cynllun yn hysbysu'r Prif Weithredwyr a wnaiff gysylltu â chi i ganfod y rheswm a cheisio eglurhad.

**7. Dogfennaeth**

Mae gofyn i chi gwblhau Ffurflen Adroddiad ar gyfer bob ymweliad a wnaed (hyd yn oed os na arsylwyd ar gŵn). Cyflwynwch gopïau'n brydlon i Weinyddwyr y Cynllun.

**8. Newid mewn amgylchiadau**

Mae disgwyl i chi hysbysu Gweinyddwyr y Cynllun am unrhyw newid mewn amgylchiadau a all effeithio eich safle fel Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu. Mae enghreifftiau yn cynnwys: os cewch eich arestio, eich cyhuddo, eich euogfarnu, neu eich rhybuddio am drosedd ar ôl cyflwyno eich cais gwreiddiol a'r broses fetio. Mae disgwyl i chi eu hysbysu hefyd os cewch eich penodi'n Ynad, yn Swyddog Gwirfoddol, yn Swyddog Heddlu neu'n ymgymryd â gwaith a all achosi gwrthdaro buddiannau i chi.

**9. Presenoldeb mewn seminarau hyfforddi a chyfarfodydd panel**

Bydd disgwyl i chi fynychu'r hyfforddiant Cynefino a chyfarfodydd adolygiad blynyddol ac unrhyw hyfforddiant a drefnir gan Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

**10. Tegwch a chyfrinachedd**

Dylech ymgymryd i beidio datgelu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r unigolion sy'n gysylltiedig ag ymholiadau'r heddlu neu weithrediadau'r heddlu y byddwch yn ei gael fel rhan o'ch dyletswyddau fel Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu. Rhaid i holl wybodaeth gael ei gwarchod yn erbyn datgeliad amhriodol neu ddiangen. Dylech fod yn ymwybodol gall datgelu gwybodaeth yn amhriodol a gafwyd yn ystod ymweliad ddenu achosion sifil neu droseddol. Yn ychwanegol, gall datgelu ffeithiau anawdurdodedig o ran ymgyrchoedd heddlu neu ddiogelwch gorsafoedd heddlu olygu trosedd o dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

**11. Ymholiadau**

Dylai ymholiadau ar unrhyw agwedd o'r cynllun gael eu gyrru at Weinyddwyr y Cynllun:-

| | |
|---|---|
| Matthew Walton<br>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>Clemonds Hey<br>Oakmere Road<br>Winsford, CW7 2UA<br>Ffôn: (01606) 364005 | Meinir Mai Jones<br>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>Pencadlys<br>Glan y Don<br>Bae Colwyn, LL29 8AW<br>Ffôn: (01492) 804903 |

| E-bost: matthew.walton@cheshire.pnn.police.uk | E-bost: Meinir.Jones1@nthwales.pnn.police.uk |
|---|---|

Rhaid i chi lofnodi isod i ddangos i'ch cytundeb gael ei rwymo gan y Cynllun Lles Cŵn Heddlu a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Dychwelir copi o'r cytundeb hwn i chi, fel cyfeirnod i chi at y dyfodol.

ENW: ……………………………
(PRIF LYTHRENNAU BLOC)

Llofnod: ……………………………

Dyddiad: ………………………………

*Rhagfyr 2016*

ATODIAD 2

# CYNLLUN LLES CŴN HEDDLU

## GWEITHDREFN PENODI, TERFYNU, CWYNION AC APELIADAU

Mae Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gweithredu system dryloyw ac agored ar gyfer gweithdrefnau penodi, ailbenodi, rheoli ymddygiad a materion cwynion ac apeliadau. Mae rheoli'r gweithdrefnau hyn yn gyflym ac effeithiol yn hanfodol wrth sicrhau Cynllun Lles Cŵn Heddlu.

**1. Cadarnhau penodiad / ailbenodiad**

1.1 Wrth gael eu penodi mae gofyn i bob Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n gosod disgwyliadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) o Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu a pha lefelau o gymorth a hyfforddiant a ddarperir.

1.2 Mae holl benodiadau yn amodol ar gyfnod arbrofol. Cadarnheir penodiadau'n unig wedi cwblhau'r cyfnod hwn yn llwyddiannus. Wrth benderfynu beth sy'n llwyddiannus, ymgynghorir â'r Prif Weithredwr priodol. Bydd y canlynol yn cael eu hystyried:-

- Nifer o ymweliadau a ymgymerwyd.
- Adborth gan gyd-Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu.
- Safbwyntiau gan Weinyddwr y Cynllun.

1.3 Yn dilyn cyfnod prawf boddhaol, hysbysir Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr am eu penodiad dair mlynedd. Yn ystod y penodiad bydd disgwyl iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn unol â thelerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

1.4 Os, fodd bynnag, na chadarnheir penodiad Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu, bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu am y penderfyniad yn ysgrifenedig. Mae gan yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Prif Weithredwr i'r Comisiynydd. Gosodir y weithdrefn apeliadau yn Adran 3 isod.

1.5 Ar ddiwedd bob cyfnod penodiad ac yn amodol ar yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn dymuno'n bersonol i barhau, ystyrir y canlynol gan y Prif Weithredwr wrth ystyried p'un ai i ymestyn y penodiad:-

- Nifer o ymweliadau a gynhaliwyd i gydymffurfio â'r rota.
- Mynychu digwyddiadau hyfforddi ac adolygu cyfarfodydd.
- Adborth gan gyd-Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu.
- Adborth gan eraill e.e. swyddogion heddlu, staff yr heddlu.

- Safbwyntiau gan Weinyddwr y Cynllun.

1.6 Bydd bob Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn derbyn hysbysiad yn ysgrifenedig ynghylch penderfyniad y Prif Weithredwr ynghylch ymestyn y penodiad am gyfnod pellach neu beidio. Cyfnod hiraf Ymwelydd Lles Cŵn yr Heddlu fydd naw mlynedd. Mae hawl apelio i'r Comisiynydd fel y gosodwyd yn Adran 3 os na ymestynnir penodiad.

## 2. Ymddygiad a materion cwynion

2.1 Mae'r adran hon yn gosod y dull yr ystyrir ymddygiad a materion cwynion a'r camau datrys. Gellir gwneud cwynion gan Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu, swyddogion a staff yr heddlu neu eraill a all ddod i gysylltiad ag Ymwelwyr Lles Cŵn yr Heddlu yn ystod eu dyletswyddau.

### 2.2 Ymddygiad

2.3 Efallai caiff penodiad Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu gael ei derfynu oherwydd camymddygiad neu berfformiad gwael fel y manylwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

2.4 Os caiff Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu ei arestio, rhybuddio neu ei gyhuddo o drosedd, gwnaiff y Prif Weithredwr ysgrifennu at yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu i wahardd eu penodiad dros dro nes bydd canlyniad unrhyw achosion troseddol yn hysbys.

2.5 Os caiff yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu eu canfod yn ddieuog wedi hynny, gallent gael eu hailbenodi. Yn achos rhybudd, bydd y Prif Weithredwr yn adolygu penodiad yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu gan ystyried natur y drosedd. Os canfyddir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn euog o drosedd, gwnaiff y Prif Weithredwr ystyried terfynu eu penodiad.

2.6 Gosodir y weithdrefn apeliadau yn erbyn terfyniadau yn Adran 3 isod.

### 2.7 Cwynion

2.8 Os yw'r gŵyn yn cynnwys cyhuddiadau yn erbyn swyddog heddlu neu staff yr heddlu, cyfeirir y mater at Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu i'w benderfynu o dan y Rheoliadau Heddlu a pholisïau heddlu priodol.

2.9 Dylid gwneud unrhyw gwynion o ran Cynllun Ymweld Lles Cŵn Heddlu, gan gynnwys cwynion yn erbyn Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu annibynnol i'r Prif Weithredwyr.

2.10 Rhaid i'r cwynwr ddarparu'r canlynol yn ysgrifenedig:-

(a) enwau unrhyw Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu o dan sylw;
(b) manylion ynghylch natur y gŵyn a'r dyddiad pryd fu'r digwyddiadau sydd wedi arwain at wneud y gŵyn;
(c) eu henw, cyfeiriad a manylion cyswllt.

2.11 Hysbysir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu ynghylch natur y gŵyn. Caiff gynnig y cyfle i roi unrhyw wybodaeth berthnasol yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod gwaith.

2.12 Efallai gwnaiff y Prif Weithredwr gysylltu ag unrhyw un o'r canlynol neu â hwy i gyd i gael eu barn am gŵyn:- y cwynwr, cyd-Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu, Rhingylliaid a Thrinwyr Uned Cŵn Heddlu, ac unrhyw unigolyn arall sy'n gallu rhoi gwybodaeth berthnasol. Unwaith mae'r Prif Weithredwr wedi derbyn unrhyw gyflwyniadau gan yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu, gwnaiff ystyried y mater a phenderfynu sut i symud ymlaen.

2.13 Gwnaiff y Prif Weithredwr geisio datrys y gŵyn yn gyflym ac anffurfiol er boddhad yr holl bartïon dan sylw lle bo hynny'n bosibl. Y nod yw datrys cwynion lle bo hynny'n bosibl o fewn deufis. Gan ddibynnu ar natur y gŵyn, yn ystod yr ymweliad gall yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu gael eu gwahardd rhag ymgymryd ag ymweliadau.

2.14 Caiff y gŵyn ei hymchwilio a pharatoir adroddiad lle nad yw datrysiad yn bosibl, neu os nad yw'r Prif Weithredwr yn gweld hyn y briodol wedi ystyriaeth gychwynnol. Gwnaiff y Prif Weithredwr a Gweinyddwr y Cynllun ystyried yr adroddiad phenderfynu'r gŵyn.

2.15 Efallai gwnaiff y Prif Weithredwr gyrraedd unrhyw un o'r casgliadau canlynol a bydd y penderfyniad yn derfynol:-

(a) gwrthod y gŵyn (i gyd neu'n rhannol);
(b) cadarnhau'r gŵyn (i gyd neu'n rhannol).

2.16 Os cadarnheir y gŵyn (neu y cadarnheir yn rhannol), gwnaiff y Prif Weithredwr benderfynu ar y lefel cosb yn ddibynnol ar ddifrifoldeb/natur y gŵyn. Bydd y cosbau yn amrywio o:-

- cyngor am ymddygiad Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn y dyfodol;
- hyfforddiant/ail-hyfforddiant penodol;
- gofyniad i ymddiswyddo neu ddiswyddiad ar unwaith o'r Cynllun.

2.17 Gwnaiff y Prif Weithredwr hysbysu'r partïon cwyno am y penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith.

## 3. Gweithdrefn apeliadau

3.1 Cyflawnir y weithdrefn apeliadau o ran holl faterion ynghylch cadarnhau, ymestyn a therfynu penodiadau Ymwelwyr Lles Cŵn Heddlu fel a ganlyn:-

- Hysbysir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn ysgrifenedig am unrhyw faterion sy'n peri pryder ynghylch cadarnhau penodiad/ailbenodiad neu derfyniad fel y penderfynir gan y Prif Weithredwr. Mae gan Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu hawl apelio i'r Comisiynydd yn erbyn penderfyniad y Prif Weithredwr i beidio penodi neu ailbenodi neu derfynu penodiad.

- Rhaid i'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu gyflwyno unrhyw resymau apelio i'r Comisiynydd yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith wedi derbyn llythyr y Prif Weithredwr.

- Bydd y Prif Weithredwr yn cwrdd â'r Comisiynydd i ystyried yr adroddiad, gan gynnwys unrhyw ymatebion ysgrifenedig, neu ddogfennau ategol gan yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu. Gwahoddir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu i

fynychu'r cyfarfod a gwrando ar y drafodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau y gwnaiff gall y Comisiynydd eu gofyn.

- Eithrir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu a'r Prif Weithredwr o'r broses gwneud penderfyniad a gynhelir yn syth wedi'r drafodaeth.

- Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn hysbysu'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu o fewn 5 diwrnod gwaith o benderfyniad terfynol y Comisiynydd.

- Os cadarnheir yr apêl, penodir neu ailbenodir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu ar unwaith.

- Os anwybyddir yr apêl, bydd yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu yn cael gwybod ac ni fu gweithredu pellach. Ni wnaiff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fynd i drafodaethau neu ohebiaeth bellach o ran unrhyw derfynu penodiad.

3.2 Mae'r weithdrefn apeliadau o ran penderfynu cwynion yn cynnwys:-

- O fewn 10 diwrnod gwaith, wedi hysbysiad o ganlyniad y gŵyn rhaid i'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu hysbysu'r Prif Weithredwr yn ysgrifenedig os ydynt yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y gŵyn. Rhaid i'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu gyflwyno'r rhesymau dros yr apêl a chyflwyno unrhyw ddogfennau ategol y dymunent gael eu hystyried fel rhan o'r apêl.

- Gwnaiff y Prif Weithredwr gyflwyno'r llythyr apêl ac unrhyw ddogfennau ategol a roddir gan yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu i'r Comisiynydd. Gwnaiff y Comisiynydd hefyd dderbyn y llythyr penderfyniad cwyn ac unrhyw adroddiad a grëwyd gan y Prif Weithredwr am y penderfyniad.

- Gwahoddir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu i fynychu a gwrando ar y trafodaethau ac ateb unrhyw gwestiynau, y gall y Comisiynydd eu gofyn.

- Eithrir yr Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu a'r Prif Weithredwr o'r broses gwneud penderfyniad a gynhelir yn syth wedi'r drafodaeth.

- Gwnaiff Gweinyddwr y Cynllun hysbysu'r Ymwelydd Lles Cŵn Heddlu am benderfyniad terfynol y Comisiynydd o fewn 5 diwrnod gwaith.